**Pwyllgor Diwylliant - CC-4-02(p.2)**

**Dyddiad:** 6 Chwefror 2002

**Amser:** 10.00am -1.00pm

**Lleoliad:** Neuadd Goffa Pontyberem

-

-

## ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT O'R IAITH GYMRAEG

## ADRODDIAD CYNGOR SIR PENFRO

1. **CYFLWYNIAD**

Cafodd ein Cynllun Iaith Gymraeg ei baratoi mewn ymateb i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cymeradwywyd cynllun y Cyngor gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 12 Mehefin 1998. Er mwyn cynorthwyo i roi ein polisi Iaith Gymraeg ar waith, rydym wedi sefydlu Gweithgor Corfforaethol sydd â chynrychiolwyr o bob Cyfarwyddiaeth. Y rheolwyr gwasanaeth sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun o ddydd i ddydd.

2. **CYNLLUN CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD – DATGANIAD STRATEGOL**

2.1 **Yr Iaith Gymraeg**

Cafodd safonau siarter leol allweddol, mewn perthynas â delio â ni trwy gyfrwng y ffôn, gohebiaeth neu ymweliadau personol, eu hymgorffori yn y polisi hwn ac maent yn cael eu gweithredu ledled y sefydliad. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen integreiddio'r Polisi Iaith Gymraeg yn y broses adolygu gwasanaeth. Paratowyd y cyngor canlynol i gynorthwyo staff pan fyddant yn cynnal ymgynghoriad ynghylch adolygu gwasanaeth:

- Bydd holiaduron a gwybodaeth a anfonir at y cyhoedd yn ddwyieithog.
- Caiff y dewis yngl•n yr iaith ei ddewis yn ddiduedd wrth drefnu a chynnal cyfweliadau.
- Lle cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus, fe hysbysir y cyhoedd ymlaen llaw fod croeso iddynt ddefnyddio'r iaith sy'n ddewisach ganddynt. Fodd bynnag, gofynnir iddynt roi gwybod i'r Cyngor o flaen llaw er mwyn galluogi cyfleusterau cyfieithu i gael eu darparu yn ôl yr angen.

- Os sefydlir sampl gynrychiadol o boblogaeth y Cyngor er mwyn ymateb i'r arolwg, dylai'r sampl hefyd gynnwys cynrychiolaeth deg o blith nifer/canran y rhai sy'n siarad Cymraeg.
- Dylid cynnwys cwestiynau sy'n dangos i'r Cyngor beth yw sylwadau barn y siaradwyr Cymraeg yngl•n ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg, yn ogystal â sut y gellir gwella'r gwasanaeth.
- Os sefydlir fforymau gwasanaeth, dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu fforwm iaith Gymraeg/ dwyieithog.
- Os yw'r arolwg yn cael ei gynnal gan asiantaeth allanol, dylid cynnwys y gofynion uchod yn y contract i wneud y gwaith, a rhaid i ni argyhoeddi ein hunain fod yr asiantaeth mewn sefyllfa i fodloni'r gofynion hyn o'r cychwyn cyntaf.

Pwysleisir gydol yr amser, pa mor bwysig yw ceisio sylwadau barn y siaradwyr Cymraeg. Bydd y staff allweddol, sy'n cymryd rhan mewn adolygu gwasanaeth, yn derbyn y cyfarwyddyd hwn trwy gyfrwng cwrs hyfforddi a gynhelir ym mis Mawrth – Mai bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau bod y Polisi Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu yn briodol trwy gydol yr adolygiad gwasanaeth.

2.2 Mae agweddau eraill ar y Cynllun yn meddu ar gysylltiadau allweddol â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

- mae'r datganiad cenhadaeth corfforaethol yn mynnu bod rhaid parchu treftadaeth ddiwylliannol y Sir.

- darparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion newidiol.

- trin pawb yn deg, a hybu cydraddoldeb cyfle.

- cyflwyno gwasanaethau ar sail anghenion, sylwadau barn, blaenoriaethau a dyheadau ein cwsmeriaid.

- gwella ein gweithwyr (yn ddiweddar dyfarnwyd safon Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Cyngor).

## CYSYLLTIADAU Â MENTRAU ERAILL : CYNLLUNIO CYMUNEDOL

3.1 Bu cyd-ddull o ymdrin â Chynllunio Cymunedol yn datblygu'n llwyddiannus yn Sir Benfro a gwnaethpwyd cryn dipyn o gynnydd ers sefydlu gr•p partneriaeth Cynllunio Cymunedol ac Arweinyddiaeth, gyda 13 partner strategol, yn gynnar yn 2000. Mae'r bartneriaeth wedi cytuno ar bum prif flaenoriaeth.

**Datblygu Cymunedau Bywiog**

- Datblygu diwylliant blaengar ac adfywio cymunedau
- Annog pobl i gymryd rhan ym mywyd y gymuned
- Datblygu mentrau diogelwch cymunedol

**Gwella Cysylltiadau Cyfathrebu Â, O ac O Fewn y Sir**

- Datblygu rhagor ar gludiant diogel ac effeithiol yn y Sir
- Gwella'r mynediad i ac ymwybyddiaeth o'r gymdeithas wybodaeth
    - Gwella cysylltiadau effeithiol – â, o ac o fewn y Sir – o ran cludiant a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

**Cyflawni Twf Economaidd yn Seiliedig ar Angen Lleol**

- Cefnogi busnesau lleol i fanteisio ar gyfleoedd
- Ehangu sylfaen economaidd y Sir
- Gwella'r natur gystadleuol
- Creu gweithlu aml-fedrus ac addasol

**Annog Pobl i Gyflawni Eu Potensial**

- Darparu a hybu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes
- Hybu dulliau byw iach ac atal clefydau
- Hybu a sicrhau diogelwch i unigolion

**Hybu Amgylchedd Glân, Iach y Rhoddir Gwerth Arno**

- Diogelu a gwella’r amgylchedd adeiledig a naturiol

- Hybu datblygiad sy’n addas i Sir Benfro

- Hybu ein treftadaeth ddiwylliannol

Ar ben hynny, ceir pedair thema groestoriadol yn cynnwys gwerth gorau, yn ogystal â chynaladwyedd, cydraddoldeb a chynhwysiad cymdeithasol. Cytunwyd eu bod yn ddigon eang i’w defnyddio fel sylfaen gan yr holl sefydliadau, ond y gellid eu rhannu ymhellach i gynnwys dangosyddion perfformiad, targedau, tasgau a gweithgareddau.

Rhan hanfodol o’r broses hon yw integreiddio â mentrau eraill. Rydym wedi gallu sefydlu yr un penawdau blaenoriaeth ar gyfer Cynllunio Cymunedol ag a ddefnyddiwyd ar gyfer Amcan 1 yn Sir Benfro; bydd hyn yn allweddol bwysig er mwyn ei gyflwyno yn llwyddiannus. Bydd hyn yn galluogi’r Cyngor Sir i sicrhau darpariaeth ei weithgareddau a chamau gweithredu mewn modd sy’n gallu ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Ni fydd y Cynlluniau, ynddynt eu hunain, yn arwain at wasanaethau o ansawdd well i bobl Sir Benfro, ond os y gallwn ni sefydlu mecanwaith sy’n cyflawni gwelliannau trwy gynlluniau gweithredu, yna dylai canlyniadau gwirioneddol ddod yn sgil hynny. Dylai’r strwythur hwn alluogi cysylltiadau i gael eu sefydlu rhwng angen cymunedol, gweithgareddau’r Cyngor Sir a rhaglenni sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

## 4. **ENGHREIFFTIAU O FENTRAU/GWEITHGAREDDAU LLEOL**

### **Allanol**

4.1 Dosbarthu proforma i bob trethdalwr domestig a busnes er mwyn cynyddu mewn modd rhagweithiol, gronfa ddata yr unigolion hynny sydd angen gohebiaeth yn Gymraeg. Cafodd yr wybodaeth hon ei darparu i reolwyr o fewn y sefydliad ac mae ar gael ar y Fewnrwyd.

4.2 Lansio’r Fenter Iaith yn llwyddiannus a darparu cyllid i gefnogi’r mentrau iaith.

4.3 Darparu cyrsiau hyfforddi iaith Gymraeg mewn Canolfannau Addysg Gymunedol sydd o fewn cyrraedd pawb.

4.4 Rhaid cael tystiolaeth ategol i gyd-fynd â’r ceisiadau am gyllid, er mwyn dangos eu polisïau dwyieithog a sut mae eu polisïau yn gweithredu yn ymarferol.

4.5 Darparu gwybodaeth safonol yn ddwyieithog.

4.6 Adolygiad o’r Rhyngrwyd yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau cael cydymffurfiad llawn â’r Cynllun Iaith Gymraeg.

**Mewnol**

4.7 Defnyddio Rhagbaratoadau Tîm Corfforaethol rheolaidd, Rhaglenni Sefydlu Corfforaethol a "Gwybod am Gyrsiau Eich Sefydliad" er mwyn lledaenu gwybodaeth am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.

4.8 Y Côd Ymarfer yngl•n â recriwtio a dethol, yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru er mwyn cynnwys cynllunio sgiliau ieithyddol.

4.9 Dosbarthu holiadur sgiliau ieithyddol i’r staff, sy’n gweithio yn adran fusnes greiddiol yr awdurdod.

4.10 Mae’r sefydliad wedi ennill achrediad safon Buddsoddwyr mewn Pobl, ac o’r herwydd dylai adolygiadau perfformiad y staff gynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg. Rheoli seminarau "Dwy Iaith Ar Waith" a "Iaith dros Ginio" sydd hefyd ar gael. Ar hyn o bryd mae strategaeth gydlynedig ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael ei datblygu.